Mari Mathias creates mystical behaviour, driven by nature, landscape and tradition. She sings in her native Welsh tongue and puts her own contemporary take on traditional folk melodies from West Wales and Pembrokeshire. She brings a surging energy on stage and beautiful tones of delicate melodic vocals, marrying intimate moments of storytelling and exhilarating folk sounds. Her music creates a confident step forward over the post modern footprints that extends through past and present, exploring a re-imaged reminder of identity.

---



## MELLT

Genres: Alternative rock
Genres: Roc-amgen

**Yn wreiddiol o Aberystwyth, band pedwar aelod yw Mellt sydd bellach wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. A hwythau â phrofiad helaeth o berfformio sioeau byw, mae'r grŵp pedwar aelod egnïol hwn yn llwyddo i swyno'r gynulleidfa ble bynnag yr ânt, gan roi eu stamp pendant ar dirwedd cerddoriaeth eang Cymru. Gyda geiriau tebyg i siantio, gitâr ysgytwol a churiadau drymio ergydiol, mae Mellt yn cyffroi a chorddi'r dorf, gan achosi cynnwrf ym mhob man yr ânt. Gan nodi The Clash, The Band a The Replacements fel dylanwadau, mae gan Mellt ail albwm i'w ryddhau ddiwedd mis Hydref ar Clwb Music.**

Mellt are a four piece band originally from Aberystwyth, but now based in Cardiff. With numerous live shows under their belt, this energetic four piece manages to captivate an audience, firmly making their mark in Wales' vast music landscape. Chant-like vocals, shrieking guitar and punching drumbeats, Mellt are crowd anarchists, causing a ruckus wherever they go. Citing influences from The Clash, The Band and The Replacements, Mellt have a second album due for release at the end of October on Clwb Music.

---



## MINAS

Genres: Punk, Electronic, Industrial, Grime, Noise
Genres: Pync, Electronig, Diwydiannol, Grime, Sŵn

**Yn gyflym, mae Minas wedi gwneud enw iddo'i hun fel grym o bwys ar y sîn yn y DU, gan drafod straeon am orffennol amheus drwy seinweddau melodaidd dwfn ac effeithiau swnllyd, ymosodol. Gan berfformio fel grŵp 4 aelod, dyma i chi sioe llawn egni y mae'n rhaid ei gweld sy'n ymdrin â brwydrau personol o iechyd meddwl i ddadrithiad gyda'r byd sydd ohoni.**

Minas is quickly becoming known as a serious force in the UK scene. Covering stories of a checkered past over deep melodic soundscapes and loud, aggressive impacts. Performing as a 4-piece, a must-see energy-fuelled show covering personal struggles from mental health to disillusionment with the world as we know it.



### MOUNT PALOMAR

Genres: Electronic, Experimental, Electro, Breakbeat
Genres: Electronig, Arbrofol, Electro, Breakbeat

**Ystyrir Mount Palomar, y cynhyrchydd electronig arloesol a'r act fyw caledwedd o Iwerddon fel un o dalentau electronig newydd mwyaf cyffrous Iwerddon. Hyd yn hyn, mae wedi chwarae mewn lleoliadau eiconig yn amrywio o Berghain Berlin i Printworks Llundain, gan rannu llwyfannau gydag actau fel Bicep, Overmono, Midland ac Avalon Emerson.**

Pioneering Irish electronic producer and hardware live act, Mount Palomar has been hailed as one of Ireland's most exciting new electronic talents. To date he has played iconic venues ranging from Berlin's Berghain to Printworks London, sharing stages with acts such as Bicep, Overmono, Midland and Avalon Emerson.



### MISSFAITHEE

Genres: RnB, Soul, Jazz, Hip-Hop
Genress: RnB, Soul, Jazz, Hip-Hop

**A hithau'n gantores-gyfansoddwraig a lleisydd RnB Soul 25 mlwydd oed, mae MissFaithee yn ysbrydoledig a thalentog. Mae hi'n ysgrifennu caneuon sy'n tynnu ar ei phrofiadau fel merch, menyw, cariad, ffrind a rhywun sydd wedi teithio. Mae asiad harmonig seiniau ei cherddoriaeth yn darparu cydbwysedd cyfoethog o ran tôn sydd rhwng bregusrwydd a phŵer. Gydag aelodau ei band, mae hi'n creu stamp llawn enaid yn y gymdeithas gyfoes sydd ohoni.**

MissFaithee is an inspirational and talented 25 year old, Soulful RnB singer-songwriter and vocalist. She writes songs that speak from her experiences as a daughter, a female, a lover, a friend and someone who has travelled. Her harmonic blend of sounds in her music deliver a rich tone balance between vulnerability and power. With her band members she creates a soulful stamp in the contemporary society we live in.



### NATASHA WATTS

Genres: Soul, Jazz, RnB
Genres: Soul, Jazz, RnB

**Mae Natasha Watts, seren ddisglair yn y diwydiant cerddoriaeth, wedi swyno cynulleidfaoedd gyda'i llais dwys a deinamig. Gyda gyrfa wedi'i gwreiddio mewn dylanwadau R&B a jazz, mae hi'n asio emosiwn ac alaw yn ddiymdrech. Mae ei chatalog o recordiau yn dangos taith o ddatblygiad cerddorol, gan ei gwneud yn enw i'w wylio ym myd cerddoriaeth gyfoes.**

Natasha Watts, a rising star in the music industry, has captivated audiences with her soulful and dynamic voice. With a career rooted in R&B and jazz influences, she effortlessly blends emotion and melody. Her discography showcases a journey of musical evolution, making her a name to watch in contemporary music.



## SAMANA

Genre: Psychedelic Folk, Alternative folk, Art-rock, Indie, Psychedelic-rock, Spiritual
Genre: Gwerin Seicedelig, Gwerin amgen, Roc-gelf, Indi, Roc-seicedelig, Ysbrydol

**Siwrnai o archwilio mewnol ac allanol yw Samana; mae eu cerddoriaeth wedi'i llunio â phwys ac arwyddocâd siamanaidd, sy'n deillio o ddehongli breuddwydion, astudio defodau hynafol, ac athroniaethau cariad a marwolaeth. Mae Samana yn creu eu holl gelf eu hunain yn eu stiwdio recordio analog ac ystafell dywyll 'The Road Records' ym mherfeddion cymoedd gwledig Cymru.**
Samana is a journey of internal and external exploration; their music is forged with a shamanic weight and significance, born from the interpretation of dreams, the study of ancient rituals, philosophies of love and death. Samana create all their art themselves in their analogue recording studio and darkroom suite 'The Road Records' deep in the rural valleys of Wales.



## SCUSTIN

Genres: Post-funk, Jazzy-funk, Indie-rock
Genres: Ôl-pync, Jazz-ffync, Indi-roc

**Mae Scustin yn cyflwyno "ôl-ffync", sy'n cael ei greu ganddynt drwy gyfuno storïa doniol gyda golwg ffync jazz arbennig ar roc indi. Cafodd eu sain ei greu drwy ddychmygu beth fyddai'n digwydd pe bai Blindboy, Viagra Boys, Mike Skinner a Jamiroquai yn mynd allan am noson feddw yn Bray ac yn ysgrifennu albwm am y peth.**Scustin are purveyors of "post-funk", which they create by blending humorous storytelling with a jazzy funk take on indie rock. Their sound was created by imagining what would happen if Blindboy, Viagra Boys, Mike Skinner and Jamiroquai went for a boozy night out in Bray and wrote an album about it.



## SEBA SAFE

Genres: Folk, Indie, Pop
Genres: Gwerin, Indi, Pop

**Ac yntau'n rym cynyddol ym myd cerddoriaeth Iwerddon, cysyniad Michael D'Alton yr ysgrifennwr caneuon o Ddulyn yw Seba Safe. Yn ddidwyll ac yn onest, mae ei eiriau yn ymdrin â pherthnasoedd personol, cariad, colled, a newid, gan asio elfennau o Bop, Gwerin, Indi, ac R'n'B. Daeth clod y beirniaid i'w ran yn dilyn ei gydweithrediad ag Æ MAK ar 'i dance in the kitchen', a bydd 2023 yn flwyddyn mawr iddo gyda'i ail EP ar y label Indi, Nettwerk.**
Seba Safe, the brainchild of Dublin songwriter Michael D'Alton, is a rising force in Ireland's music scene. Candid and honest, his lyrics touch on personal relationships, love, loss, and change, blending elements of Pop, Folk, Indie, and R'n'B. Collaborating with Æ MAK on 'i dance in the kitchen' earned him critical acclaim, and 2023 marks the breakthrough year with his sophomore EP on Indie label Nettwerk.



## SIMON WHITEHEAD: 'DULAIS'

Genres: Sound art, Dance/performance, Acoustic ecology
Genres: Celf sain, Dawns/perfformiad, Ecoleg acwstig

**Artist wedi ei leoli yng Ngorllewin Cymru yw Simon Whitehead. Mae'n gweithio'n gorfforol gyda phethau sy'n symud; bodau byw, gwrthrychau, deunyddiau, tirweddau ac atmosfferau. Cafodd ei osodiad sain 'Dulais' ei greu o recordiadau maes a gymerwyd ar lednentydd afon Teifi yn agos i'w gartref gan ddefnyddio ei Fender Stratocaster. Gallwch brofi 'Dulais' yn Oriel Canfas, Aberteifi trwy gydol gŵyl Lleisiau Eraill, gweler canfas.co.uk am oriau agor.**
Simon Whitehead is an artist based in West Wales. He works physically with things that move; living beings, objects, materials, landscapes and atmospheres. His sound installation 'Dulais' was created from field recordings taken on the tributaries of the Teifi close to his home using his Fender Stratocaster. You can experience 'Dulais' at Canfas Gallery, Cardigan for the duration of the Other Voices festival, see canfas.co.uk for opening times.



## SYWEL NYW

Genres: Electronic, Indie Alternative
Genres: Electronig, Indi Amgen

**Sywel Nyw yw prosiect unigol y cerddor, offerynnwr a'r cynhyrchydd Lewys Wyn. Mae Lewys yn rhagori mewn cyfansoddi ar y cyd ac mae'n gerddor sy'n gwthio ffiniau, yn awyddus i greu cynnyrch gwreiddiol a gwahanol. Mae Lewys wedi gweithio gydag artistiaid o statws rhyngwladol gan gynnwys Dionne Bennett, Endaf Emlyn, Mark Roberts, Kliph Scurlock ac Adwaith.**
Sywel Nyw is the solo project of musician, multi-instrumentalist and electronic producer Lewys Wyn. Excelling in collaborative songwriting and with a desire to push boundaries, Lewys has worked with internationally renowned artists such as Dionne Bennett, Endaf Emlyn, Mark Roberts, Kliph Scurlock and Adwaith.



## TARA BANDITO

Genres: Alt-pop, World, Electronic, Grime.
Genres: Pop Amgen, Byd, Electronig, Grime.

**Fe ffrwydrodd Tara Bandito, merch y reslwr, i sîn cerddoriaeth Cymru pan gafodd ei sengl gyntaf ei rhyddhau gan Recordiau Côsh yn Ionawr 2022. Fe gyrhaeddodd restr 5 artist gorau'r DJ Bethan Elfyn o BBC Introducing, rhestr y 10 gorau cylchgrawn God is in the TV, a chafodd Tara ei henwi'n 'artist yr wythnos' gan DJ Huw Stephens. Ym mis Ionawr 2023 rhyddhaodd ei halbwm cyntaf 'Tara Bandito', gyda'r prif drac 'Croeso i Gymru' yn derbyn sylw'n fuan gan Craig Charles ar BBC 6 Music. Cyn dilyn ei gyrfa fel artist unigol, bu Tara yn aelod o Late Night Pop Dungeon Charlotte Church am 7 mlynedd ac roedd ar yr allweddellau ac yn canu yn y cefndir i'r band pop indi, Ynys. Mae hi'n ymfalchïo mewn cyflwyno sioe wefreiddiol i'w chynulleidfa.**
Releasing her first single with Côsh Records in January 2022, wrestler's daughter Tara Bandito burst on to the

Welsh music scene reaching BBC Introducing DJ Bethan Elfyn's top 5 artists, God is in the TV Zine's top 10 list and she was named as DJ Huw Stephens' Artist of the Week. In January 2023 she released her debut self-titled album with the lead track 'Croeso i Gymru' soon picked up by Craig Charles on BBC 6 Music. Prior to her career as a solo artist, Tara was a member of Charlotte Church's Late Night Pop Dungeon for 7 years and was on keys and bv's for indie pop band Ynys. She prides herself on showering her audience with a pumping show.

---



## TEDDY HUNTER

Genres: Electronic, Ambient, Alternative, Indie
Genres: Electronig, Ambient, Amgen, Indi

**Mae Teddy Hunter, Enillydd Green Man Rising 2021, yn artist clyweledol a cherddorwraig electronig o Gaerdydd sy'n gweithio ym maes cerddoriaeth amgen a sain ymdrochol. Nodweddir ei chyfansoddi caneuon electronig amgylchynol gan lwpiau breuddwydiol, cynyddu graddol ac alawon wedi'u syntheseiddio. Gan arbrofi gyda recordiadau maes, sain ofodol a delweddau i greu seinweddau a phrofiadau ymdrochol electronig amgylchynol, mae ei gwaith yn canolbwyntio ar ecoleg a'r rhyngweithiadau rhwng bodau dynol a'u hamgylchoedd.**

Green Man Rising Winner of 2021, Teddy Hunter is a Cardiff-based audio-visual artist and electronic musician working in alternative music and immersive audio. Dreamy loops, gradual builds and synthesized melodies characterise her ambient electronic songwritings. Experimenting with field recordings, spatial sound and visuals to create soundscapes and ambient electronic immersive experiences, her work takes a focus around ecology and the interactions between humans and their surroundings.

---



## THUMPER

Genres: Rock, Psych rock, Noise pop, Pop rock
Genres: Roc, Roc-seicedelig, Pop sŵn, Pop-roc

**Mae THUMPER o Ddulyn wrthi'n sefydlu eu hunain fel un o fandiau mwyaf addawol a chyffrous Iwerddon ar hyn o bryd. Gyda dau ddrymiwr a phedwar gitarydd, mae wal sain enfawr THUMPER wedi eu gosod ar wahân ers amser maith ar sîn gerddoriaeth ffyniannus Dulyn ac maen nhw'n "perfformio fel mawrion ochr yn ochr â'r Fontaines DC a The Murder Capital" (Chris Hawkins, BBC Radio 6).**

Dublin's THUMPER are currently establishing themselves as one of Ireland's most promising and exciting bands. With a line-up of two drummers and four guitarists, THUMPER's maximalist wall of sound has long since set them apart in the booming Dublin music scene and has them "punching like heavyweights alongside Fontaines DC and The Murder Capital" (Chris Hawkins, BBC Radio 6).

---



## TRAMP

Genres: Indie, Punk, Rock, Pop
Genres: Indi, Pync, Roc, Pop

**Gyda'i acen Donegal, mae perfformiad tanllyd a chathartig TRAMP yn cyfuno riffs gitâr a drymiau gafaelgar sy'n eich cadw chi i ddyfalu – gyda llais amrwd, di-ildio. Mae "geiriau caneuon amserol" Tramp gyda'u sain pync-cwiar yn wirioneddol heintus.**
TRAMP's fiery and cathartic, Donegal-accented performance combines earworm guitar riffs and drums which keep you guessing – with a raw, unrelenting voice. TRAMP's "timely lyrics" alongside their queer-punk sound is truly infectious.

---



### ULY

Genres: Soul, Lo-fi, Alternative
Genres: Soul, Lo-fi, Amgen

**"Weithiau'n drist, weithiau'n grŵfi'. Wedi'i ddylanwadu'n ddwfn gan bop, soul, jazz, gwerth cynhyrchu gyda nostalgia ac agwedd gwneud y cyfan eich hun, mae gwaith Uly (ganed Rafino Murphy) yn hynod bersonol, yn archwiliadol ac yn troi o gwmpas hunaniaeth a'r hunan, y cyfan yn erbyn cefndir o harmoni cysurlon, ymdrochol a chyfareddol.**
'Sometimes sad, sometimes groovy'. Deeply influenced by pop, soul, jazz, nostalgic production values and doing-it-yourself, Uly (né Rafino Murphy)'s work is highly personal, exploratory and revolves around identity and self, all against a backdrop of comforting, immersive and captivating harmony.

# Clebran

## Flowing Tides / Llanw a Thrai / Sruth



# Clebran

**Flowing Tides / Llanw a Thrai / Sruth**

26–28 Hydref / October 2023
Wales / Cymru
#OVC23

Cynhelir yr holl sesiynau Clebran ym Mwldan 2.
All Clebran events take place in Mwldan 2.

## Dydd Iau 26 / Thursday 26

3.45 PM
**Agoriad / Opening**
First Minister of Wales
Prif Weinidog Cymru
Mark Drakeford
Cerys Hafana

**'One Damp Green Country / Is Much Like The Other'**
Jon Gower

4.15 PM
**Teithiau Iaith / Language Journeys**

Jon Gower
(Llywydd / Host)
Cerys Hafana
Dr John Gallagher
Wayne Howard

5.30 PM
**Lleoedd Bach, Syniadau Mawr / Small Places, Big Ideas**

Christopher Kissane
(Llywydd / Host)
Deirdre De Bhailís
First Minister of Wales
Prif Weinidog Cymru
Mark Drakeford

## Dydd Gwener 27 / Friday 27

5.00 PM
**Creu Gofod: Lleisiau Cwiar Yn Y Sector Creadigol / Creating Space: Queer Voices In The Creative Sector**

Damian Kerlin
(Llywydd / Host)
Daf James
Tracy Spottiswoode

## Dydd Sadwrn 28 / Saturday 28

2.30 PM
**Don't Stop (Thinking About Tomorrow)**

Christopher Kissane
(Llywydd / Host)
Jessica McQuade
Richard Fisher
Dr Sharon Lambert

4.00 PM
**Y Straeon A Adroddwn / The Stories We Tell**

Christopher Kissane
(Llywydd / Host)
CN Smith
Hanan Issa
Sophie Mackintosh



Mewn partneriaeth ag /
In partnership with /
i gcomhpháirt le Ireland's Edge

## CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

**Trwy drafodaeth a barddoniaeth, cerddoriaeth a ffilm, byddwn yn ystyried rhai enghreifftiau disglair o gynnydd, creadigrwydd ac ysbrydoliaeth. Lleisiau ffres a safbwyntiau newydd sy'n newid y stori. Mae sgyrsiau sy'n ysgogi ffyrdd newydd (a rhai hen iawn) o gysyniadu, yn croesawu posibiliadau eang iaith ac yn archwilio'r straeon y byddwn yn dewis eu hadrodd; y grym sydd gan y ffyrdd o feddwl hyn o feddwl i ehangu ein bydoedd, troi'r llanw ac addo rhywbeth gwell i'r rheiny sy'n dod nesaf. Tridiau sy'n llawn dop o syniadau.**

***Cynhelir rhai o'r sesiynau yn Gymraeg A Gwyddeleg, darperir clustffonau ar gyfer cyfieithu ar y pryd.***

Through discussion and poetry, music and film, we will look at some shining examples of progress, creativity and inspiration. Fresh voices and new perspectives that shift narratives. Conversations that prompt new (and very old) ways of conceptualising, embrace the expansive possibilities of language and examine the stories we choose to tell; the power these ways of thinking have to broaden our worlds, turn tides and promise something better for those who come next. Three days packed full of ideas.

*Some of the sessions will be conducted in Welsh AND Irish, headphones will be provided for simultaneous translation.*

## Dydd Iau 26 / Thursday 26
## 3.45 PM

**Bydd Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford yn agor Lleisiau Eraill Aberteifi 2023 gydag ychydig eiriau, gyda cherddoriaeth gan Cerys Hafana i ddilyn.**

The First Minister of Wales Mark Drakeford opens Other Voices Cardigan 2023 with a few words followed by music from Cerys Hafana.

## 'ONE DAMP GREEN COUNTRY / IS MUCH LIKE THE OTHER'

**Bydd yr awdur a'r darlledwr Jon Gower yn dechrau'r digwyddiad drwy sôn am y berthynas rhwng Iwerddon a Chymru, gan adleisio ei lyfr diweddaraf 'The Turning Tide', a oedd yn cynnig 'bywgraffiad o Fôr Iwerddon'.**

Writer and broadcaster Jon Gower will begin the event with words on the relationship between Ireland and Wales, echoing his latest book 'The Turning Tide', which offered a 'biography of the Irish Sea'.

Dydd Iau 26 / Thursday 26
4.15 PM

## TEITHIAU IAITH / LANGUAGE JOURNEYS

**Mae gan bob un o'n panelwyr eu straeon eu hunain am sut y gwnaethant feithrin eu hieithoedd, a sut mae siarad yr ieithoedd hynny wedi ehangu posibiliadau eu bywydau eu hunain. Mamiaith, ail iaith neu faes ymchwil, byddwn yn clywed am y ffyrdd y gall iaith gyfoethogi bywydau a datgloi cyfleoedd.**
**Bydd y panel hwn yn cynnwys cerddoriaeth gan y delynores deires Cerys Hafana.**

Each of our panellists have their own stories of how they came to their languages, and how speaking them has broadened the possibilities of their own lives. Mother tongue, second language or field of research, we will hear about the ways in which language can enrich lives and unlock opportunities.
This panel will include music from triple harpist Cerys Hafana.

| | |
|---|---|
| Llywydd / Host | **JON GOWER** |
| Siaradwyr a Perfformwyr<br>Speakers & Performers | **CERYS HAFANA<br>DR JOHN GALLAGHER<br>WAYNE HOWARD** |



### JON GOWER

**Mae Jon Gower wedi ysgrifennu dros ddeugain o lyfrau, yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys 'The Turning Tide: A Biography of the Irish Sea', emyn i fordaith o bwys hanesyddol byd-eang sy'n cyfuno hanes cymdeithasol a diwylliannol, ysgrifennu natur, cyfrif teithio, a gwleidyddiaeth. Ef hefyd yw awdur 'The Story of Wales' a oedd yn cyd-fynd â chyfres nodedig y BBC, 'An Island Called Smith' a enillodd Wobr John Morgan am Lên Deithio, ac 'Y Storïwr' a enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn. Mae Jon, sy'n byw yng Nghaerdydd, yn gyn-ohebydd celfyddydau a chyfryngau i BBC Cymru.**

Jon Gower has over forty books to his name, in Welsh and English, including 'The Turning Tide: A Biography of the Irish Sea', a hymn to a sea passage of world-historical importance which combines social and cultural history, nature-writing, travelogue and politics.
He is also the author of 'The Story of Wales' which accompanied the landmark BBC series, 'An Island Called Smith' which gained the John Morgan Travel Writing Award and 'Y Storïwr', which won the Wales Book of the Year award. Jon is a former BBC Wales arts and media correspondent who lives in Cardiff.



CERYS HAFANA

**Cyfansoddwraig ac aml-offerynwraig yw Cerys Hafana sy'n manglo, ail-lunio a thrawsnewid cerddoriaeth draddodiadol. Mae ei cherddoriaeth yn chwarae gyda phosibiliadau unigryw'r delyn deires, yn ogystal â seiniau hapgael, deunyddiau archifol a phrosesu electronig. Mae'n hanu o Fachynlleth, Cymru, lle mae afonydd a ffyrdd yn cwrdd ar y ffordd i'r môr.**

Cerys Hafana is a composer/multi-instrumentalist who mangles, mutates and transforms traditional music. She explores the creative possibilities and unique qualities of the triple harp, as well as found sounds, archival materials and electronic processing. She comes from Machynlleth, Wales, where rivers and roads meet on the way to the sea.



DR JOHN GALLAGHER

**Mae Dr John Gallagher yn Athro Cysylltiol mewn Hanes Modern Cynnar ym Mhrifysgol Leeds. Yn wreiddiol o Ddulyn, mae'n hanesydd iaith ac amlieithrwydd, addysg, a mudo. Cyhoeddwyd ei lyfr cyntaf, 'Learning Languages in Early Modern England', gan Oxford University Press yn 2019. Gellir clywed John yn aml yn cyflwyno 'Free Thinking' ar BBC Radio 3 ac mae'n ysgrifennu'n rheolaidd ar gyfer cyhoeddiadau gan gynnwys y Guardian a'r London Review of Books.**

Dr John Gallagher is Associate Professor of Early Modern History at the University of Leeds. Originally from Dublin, he is a historian of language and multilingualism, education, and migration. His first book, 'Learning Languages in Early Modern England', was published by Oxford University Press in 2019. John can often be heard presenting 'Free Thinking' on BBC Radio 3 and writes regularly for publications including the Guardian and the London Review of Books.



WAYNE HOWARD

**Athro Cymraeg wedi ymddeol o Gaerdydd yw Wayne Howard. Mae'n siarad ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn frwd gyda stori ysbrydoledig am sut y daeth i'w dysgu a'i haddysgu. Ac yntau wedi colli ei swydd fel gweithiwr dur ar ôl bron i 25 mlynedd, gyrrwyd Wayne i wireddu ei uchelgais o fod yn athro Cymraeg. Ers ymddeol, mae Wayne wedi ymddangos mewn nifer o raglenni teledu Cymraeg gan gynnwys 'Teulu, Dad a Fi' ar S4C sy'n dilyn Wayne a'i fab Connagh ar daith hanes teulu, yn olrhain eu gwreiddiau i Affrica, Jamaica, Iwerddon a Chymru.**

Wayne Howard is a retired Welsh teacher from Cardiff. He is a passionate speaker and promoter of the Welsh language with an inspiring story of how he came to learn and teach it. Having been made redundant as a steelworker after almost 25 years, Wayne was propelled to realise his ambition of becoming a Welsh language teacher. Since retiring, Wayne has featured in a number of Welsh television programmes including S4C's 'Teulu, Dad a Fi' ('Family, Dad and Me') in which Wayne and his son Connagh embark on a journey of family history, tracing their roots to Africa, Jamaica, Ireland and Wales.

**Dydd Iau 26 / Thursday 26**
**5.30 PM**

## LLEOEDD BACH, SYNIADAU MAWR / SMALL PLACES, BIG IDEAS

**Yn Clebran 2022 buom yn siarad am archbwerau deheuig cenhedloedd bychain a'u gallu i ddod yn flaengar yn y byd. Wedi'i leihau i'r lefel leol, gallwn weld bod rhywbeth gwirioneddol ddiddorol yn digwydd yn ein trefi bach, Aberteifi a Dingle. Beth ellir ei ddysgu a'i gasglu o'r enghreifftiau hyn?**

At Clebran 2022 we talked about the agile superpowers of small nations and their ability to become world-leading. Scaled-down to the local level, we can see that there is also something really interesting happening in our small towns of Cardigan and Dingle. What can be learnt and extrapolated from these examples?

| | |
|---|---|
| Llywydd / Host | **CHRISTOPHER KISSANE** |
| Siaradwyr a Perfformwyr<br>Speakers & Performers | **DEIRDRE DE BHAILÍS**<br>**FIRST MINISTER OF WALES**<br>**PRIF WEINIDOG CYMRU**<br>**MARK DRAKEFORD** |




## CHRISTOPHER KISSANE

**Hanesydd ac awdur o Kerry yw Christopher Kissane. Ar hyn o bryd mae'n Gymrawd Golygyddol gyda History Workshop, a chyn hynny bu'n gweithio gyda'r Royal Historical Society ac yn Ysgol Economeg Llundain. Roedd yn New Generation Thinker y BBC ac mae ei waith ysgrifennu yn ymddangos yn The Irish Times, The Guardian, The Financial Times ac mewn mannau eraill hefyd. Mae ei lyfr, 'Food, Religion & Communities in Early Modern Europe' allan nawr mewn clawr meddal gan Bloomsbury.**

Christopher Kissane is a historian and writer from Kerry. He is currently an Editorial Fellow with History Workshop, and has previously worked with the Royal Historical Society and at the London School of Economics. He was a BBC New Generation Thinker and his writing appears in The Irish Times, The Guardian, The Financial Times and elsewhere. His book, 'Food, Religion & Communities in Early Modern Europe' is out now in paperback with Bloomsbury.



## DEIRDRE DE BHAILÍS

**Deirdre de Bhailís yw Rheolwr Cyffredinol Dingle Hub. Mae hi'n arweinydd menter gymdeithasol a chymunedol profiadol gyda gwybodaeth gynhwysfawr am ddatblygu strategol a gweithredol. A hithau'n fedrus mewn ymgysylltu â llawer o randdeiliaid a'r gymuned, mae hi'n gyrru prosiectau lluosog sy'n mynd i'r afael ag arwain y gymuned at gymdeithas carbon isel. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu mentrau symudedd cynaliadwy ac ymchwilio i atebion treulio anaerobig er mwyn ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Mae gan Deirdre radd mewn Peirianneg Electronig o NUIG a gradd Meistr mewn Gwyddor Peirianneg o UCC.**

Deirdre de Bhailís is General Manager of Dingle Hub. She is an experienced social enterprise and community leader with a comprehensive knowledge of strategic and operational development. Skilled in multi-stakeholder and community engagement, she drives multiple projects which address the community's transition to a low carbon society. These include the development of sustainable mobility initiatives and the investigation of anaerobic digestion solutions to address climate change.
Deirdre holds a degree in Electronic Engineering from NUIG and a Masters in Engineering Science from UCC.



## Y GWIR ANRH MARK DRAKEFORD AS, PRIF WEINIDOG CYMRU / FIRST MINISTER OF WALES RT HON MARK DRAKEFORD MS

**Ganed a magwyd Mark yng Ngorllewin Cymru cyn symud i Gaerdydd fwy na 30 mlynedd yn ôl. Bu'n swyddog prawf, yn weithiwr cyfiawnder ieuenctid ac yn arweinydd prosiect Barnardos yn Nhrelái a Chaerau, ac mae wedi bod yn Athro mewn Polisi Cymdeithasol a Gwyddorau Cymdeithasol Cymhwysol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Mark hefyd wedi dysgu ym Mhrifysgol Abertawe.**

Mark Drakeford is the First Minister of Wales. He was born and brought up in West Wales before moving to Cardiff more than 30 years ago. A former probation officer, youth justice worker and Barnardos project leader in Ely and Caerau, he has been a professor of Social Policy and Applied Social Sciences at Cardiff University. Mark has also taught previously at Swansea University.

**Dydd Gwener 27 / Friday 27**
**5.00 PM**

## CREU GOFOD: LLEISIAU CWIAR YN Y SECTOR CREADIGOL / CREATING SPACE: QUEER VOICES IN THE CREATIVE SECTOR

**Yn fynych caiff ffyrdd newydd o feddwl eu geni ar yr ymylon, fel y'u gelwir, ac mae llawer o'r hyn a welwn yn y brif ffrwd nawr wedi cyrraedd yno o'r ymylon. Mae'r gymuned cwiar yn aml wedi bod ar flaen y gad o ran creadigrwydd, ac yn ei dro, mae creadigrwydd wedi rhoi llais i'r gymuned honno.**
**Bydd y panel hwn yn cynnwys dangos y ffilm fer 'Sally Leapt out of a Window Last Night' a ysgrifennwyd ac a gyfarwyddwyd gan Tracy Spottiswoode. Ysbrydolwyd y ffilm gan stori wir yr enwog 'Boneddigesau Llangollen'.**

New ways of thinking are often born at the so called margins and much of what we now see in the mainstream, made its way there from the edges. The queer community has often been at the vanguard of creativity, and in turn, creativity has given that community a voice.
This panel will include a screening of the short film 'Sally Leapt out of a Window Last Night' written and directed by Tracy Spottiswoode. Inspired by the true story of the legendary 'Ladies of Llangollen'.

| | |
|---|---|
| Llywydd / Host | **DAMIAN KERLIN** |
| Siaradwyr<br>Speakers | **DAF JAMES**<br>**TRACY SPOTTISWOODE** |



## DAMIAN KERLIN

**Newyddiadurwr a darlledwr yw Damian Kerlin, sy'n ysgrifennu ar gyfer yr Irish Independent, The Telegraph, Attitude Gay Community News a The Belfast Telegraph. Mae podlediad Damian a gomisiynwyd gan Acast, 'Memories from the Dance Floor', yn dathlu lleoliadau LGBTQ+ ledled y wlad. Mae Damian hefyd yn cyflwyno ac yn cynhyrchu podlediad Gŵyl Ffilm LGBTQ+ Gwobr Iris.**

Damian Kerlin is a journalist and broadcaster, with by-lines in the Irish Independent, The Telegraph, Attitude Gay Community News and The Belfast Telegraph. Damian's Acast commissioned podcast, 'Memories from the Dance Floor', celebrates LGBTQ+ venues across the country. Damian also hosts and produces LGBTQ+ Film Festival, The Iris Prize, podcast.



## DAF JAMES

**Mae Daf James yn artist amlddisgyblaethol cwiar: yn ddramodydd, sgriptiwr ffilmiau, cyfansoddwr a pherfformiwr gwobrwyedig. Mae'n gweithio yn y theatr, radio, teledu a ffilm drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff ei nofel gyntaf – 'JAC A'R ANGEL' – ei chyhoeddi gan Y Lolfa ym mis Medi, a chaiff 'LOST BOYS AND FAIRIES', cyfres ddrama wreiddiol, ei darlledu ar BBC One yn 2024.**

Daf James is a multidisciplinary queer artist: an award-winning playwright, screenwriter, composer, and performer, working in both English and Welsh. His first novel – 'JAC A'R ANGEL' – will be published by Y Lolfa in September, and 'LOST BOYS AND FAIRIES', an original drama series, will broadcast on BBC One in 2024.



## TRACY SPOTTISWOODE

**Gwneuthurwr ffilmiau amlddisgyblaethol yw Tracy gyda chefndir mewn perfformio a dylunio, y mae ei gwaith yn archwilio hunaniaeth, goroesiad a gwrthsafiad. Yn ogystal â datblygu nifer o'i ffilmiau byrion a phrosiectau trochi ei hun, mae ar hyn o bryd yn Gyd-reolwr Datblygu Talent yn Ffilm Cymru Wales.**

Tracy is an award-winning multi-disciplinary filmmaker with a background in performance and design. Her work explores themes of identity, survival and resistance. As well as developing a number of her own features and immersive projects, she is currently joint Talent Development Manager at Ffilm Cymru Wales.

Dydd Sadwrn 28 / Saturday 28
2.30 PM

## DON'T STOP (THINKING ABOUT TOMORROW)

**Mae rhan helaeth o fywyd modern a'r dechnoleg sydd o'n cwmpas yn canolbwyntio ar gyflymdra a brys. Mae pob un o'n panelwyr yn dadlau dros yr angen i fabwysiadu safbwynt mwy hirdymor, mwy cyfannol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y tu hwnt i hyd yn oed ein hoes ni ein hunain ac er budd cenedlaethau'r dyfodol.**

Much of modern life and the technology with which we surround ourselves focuses attention on the fast-paced immediate. Each of our panellists argue for the need to take a longer, more holistic and evidence-based view, beyond even our own lifetimes and for the benefit of future generations.

Llywydd / Host — **CHRISTOPHER KISSANE**

Siaradwyr a Perfformwyr
Speakers & Performers — **JESSICA McQUADE**
**RICHARD FISHER**
**DR SHARON LAMBERT**



### JESSICA McQUADE

**Mae Jessica McQuade yn gweithio i WWF Cymru a hi yw Rheolwr Rhaglen Wholescape Sir Benfro. Mae ganddi dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn cymdeithas sifil yng Nghymru, ac mae hi wedi galluogi newidiadau i bolisïau, gwleidyddiaeth a deddfwriaethau gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cydraddoldeb 2010. Hi yw un o 100 o Ysgogwyr Newid yng Nghymru Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.**

Jessica McQuade works for WWF Cymru and is the Wholescape Programme Manager for Pembrokeshire. She has over 20 years of working in civil society in Wales, enabling change to policy, politics and legislation including the Well-being of Future Generations Act, Environment (Wales) Act and the Equality Act 2010. She is one of the Future Generations Commissioner's 100 Change Makers in Wales.



### RICHARD FISHER

**Richard Fisher yw awdur 'The Long View: Why We Need to Transform How the World Sees Time'. Mae'n**

**uwch-newyddiadurwr yn y BBC, ac yn ymchwilydd cysylltiol anrhydeddus yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain. Mae'n cyhoeddi cylchlythyr o'r enw 'The Long View: A Field Guide'.**

Richard Fisher is the author of 'The Long View: Why We Need to Transform How the World Sees Time'. He is a senior journalist at the BBC, and an honorary research associate at University College, London. He publishes a newsletter called 'The Long View: A Field Guide'.

---



DR SHARON LAMBERT

**Ymunodd Dr Sharon Lambert â'r Ysgol Seicoleg Gymhwysol yng Ngholeg Prifysgol Cork yn dilyn nifer o flynyddoedd yn gweithio mewn lleoliadau cymunedol a oedd yn darparu cefnogaeth i grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Ym mis Ebrill 2023, gwahoddwyd Sharon i siarad yn y Cynulliad Dinasyddion cyntaf ar Ddefnyddio Cyffuriau yn Iwerddon, a ystyriodd y materion amrywiol a chymhleth sy'n ymwneud â defnyddio cyffuriau a pholisi cyffuriau.**

Dr Sharon Lambert joined the School of Applied Psychology at University College Cork following a number of years working within community based settings that provided support to socially excluded groups. In April 2023, Sharon was invited to speak at the inaugural Citizens' Assembly on Drug Use in Ireland, which considered the various and complex issues surrounding drugs use and drugs policy.

**Dydd Sadwrn 28 / Saturday 28**
**4.00 PM**

---

## Y STRAEON A ADRODDWN / THE STORIES WE TELL

**Mae Cymru ac Iwerddon yn genhedloedd â chanddynt draddodiadau storïa cyfoethog, felly beth sydd gan storïwyr cyfoes y ddwy wlad (bardd, dramodydd, nofelydd) i'w ddweud am y straeon y maen nhw'n dewis eu hadrodd?**
**Bydd y panel hwn yn cynnwys barddoniaeth gan Fardd Cenedlaethol Cymru Hanan Issa.**

Wales and Ireland are nations with rich storytelling traditions, so what do the modern-day storytellers of each country (poet, playwright, novelist) have to say about the stories they choose to tell?
This panel will include poetry from National Poet of Wales Hanan Issa.

| | |
|---|---|
| Llywydd / Host | CHRISTOPHER KISSANE |
| Siaradwyr<br>Speakers | CN SMITH<br>HANAN ISSA<br>SOPHIE MACKINTOSH |



## CN SMITH

**Mae CN Smith yn ddramodydd o Swydd Louth, Iwerddon. Mae ganddo MFA mewn Ysgrifennu Dramâu o'r Lir Academy, lle derbyniodd Ysgoloriaeth Ysgrifennu Dramâu Patricia Leggett. Comisiynwyd ei ddrama 'Spear' gan Ŵyl Fringe Dulyn yn 2022, a chaiff ei llwyfannu eto yn Portland, Oregon ym mis Chwefror 2024. Cyflwynwyd darn o'i ddrama 'Corktown' gan Fishamble: The New Play Company a The Irish Repertory Theatre fel rhan o ddarlleniadau 2023 y Trans-Atlantic Commissions yn Efrog Newydd, San Francisco a Los Angeles.**

CN Smith is an Irish playwright from County Louth. He holds an MFA in Playwriting from the Lir Academy, where he received the Patricia Leggett Playwriting Scholarship. His play 'Spear' was commissioned by Dublin Fringe Festival in 2022, and a revival is set to be staged in Portland, Oregon in February 2024. An excerpt of his play 'Corktown' was presented by Fishamble: The New Play Company and The Irish Repertory Theatre as part of the 2023 Trans-Atlantic Commissions readings in New York, San Francisco and Los Angeles.



## HANAN ISSA

**Bardd, gwneuthurwr ffilmiau ac artist Cymreig-Iraci yw Hanan Issa. Ymhlith ei chyhoeddiadau mae ei chasgliad o farddoniaeth 'My Body Can House Two Hearts' a 'Welsh Plural: Essays on the Future of Wales'. Bu'n rhan o'r tîm ysgrifennu ar gyfer y gyfres wobrwyedig Channel 4 'We Are Lady Parts' ac yn gyd-sylfaenydd y gyfres meic agored 'Where I'm Coming From'. Hi yw Bardd Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd a Chymrawd Rhyngwladol Gŵyl y Gelli 2022-2023.**

Hanan Issa is a Welsh-Iraqi poet, filmmaker, and artist. Her publications include her poetry collection 'My Body Can House Two Hearts' and 'Welsh Plural: Essays on the Future of Wales'. She is part of the writersroom for Channel 4's award-winning series 'We Are Lady Parts' and is co-founder of the 'Where I'm Coming From' open mic series. She is the current National Poet of Wales and 2022-2023 Hay International Fellow.



SOPHIE MACKINTOSH

**Magwyd Sophie Mackintosh yn Sir Benfro, ac ar hyn o bryd mae hi'n byw yn Llundain. Mae ei ffuglen, ei thraethodau a'i barddoniaeth wedi cael eu cyhoeddi gan Granta, The White Review, The New York Times a The Stinging Fly, ymhlith eraill.**
**Cyhoeddwyd nofel gyntaf Sophie 'The Water Cure' yn 2018, a chyrhaeddodd restr hir Gwobr Man Booker. Cyhoeddwyd ei hail nofel 'Blue Ticket' yn haf 2020, a'i thrydedd nofel 'Cursed Bread', a gyrhaeddodd restr hir Gwobr y Menywod, yn 2023. Cafodd hi ei chynnwys ar restr Nofelwyr Ifanc Gorau Prydain 2023.**

Sophie Mackintosh grew up in Pembrokeshire, and is currently based in London. Her fiction, essays and poetry have been published by Granta, The White Review, The New York Times and The Stinging Fly, among others.
Sophie's debut novel 'The Water Cure' was published in 2018, and was long-listed for the Man Booker Prize. Her second novel 'Blue Ticket' was published in Summer 2020, and her third novel 'Cursed Bread', which was longlisted for the Women's Prize, in 2023. She was included on the 2023 Granta Best Of Young British Novelists list.

## DJs/ Mwldan Hwyr y Nos / DJs/ Late Night Mwldan

**Bob nos bydd gennym DJs sy'n cwmpasu nifer o genres yn chwarae yn yr oriel/bar yn y Mwldan tan yr oriau mân...**
Each night we'll have some genre-spanning DJs playing in the gallery/bar at Mwldan into the early hours...

**Nos Iau / Thursday**

| | |
|---|---|
| 8.00 PM | Mr. A |
| 10.45 PM | Benway (Connections) |

**Nos Wener / Friday**

| | |
|---|---|
| 8.00 PM | DJ Branwen |
| 10.15 PM | Good Nature Party |
| 1.15 AM | Canol (DJs Karl West & Jonny Lewis) |

**Nos Sadwrn / Saturday**

| | |
|---|---|
| 8.00 PM | Wozza Woz & Hugo da Boss |
| 10.45 PM | My Friend Andy |
| 1.15 AM | Nathan "Stardust" Jones |




**Diolch o galon i...**
**A big thank you to...**
Eglwys y Santes Fair - St Mary's Church / Mwldan / Theatr Byd Bychan – Small World Theatre / Canfas / Pizza Tipi / Pafiliwn y Castell – Castle Pavilion / Crwst / Bar y Sellar – Cellar Bar / Stiwdio 3 / Bar 45 / Jig-so / Cyngof Tref Aberteifi – Cardigan Town Council / Eleri Maskell / Clive Davies / Llinos Jones / Billy Mag Fhloinn / Catrin Henry / Louise O'Neill / Mark Lewis, Cardibanners / Nikki Lewis and OC Davies / Sarah Moloney / Jane Davidson / The Caygills

**Rhoddwyr hael ein Gwobrau...**
**Our generous Prize donors...**
Adventures Beyond / Boys and Girls / Cardigan Bay Properties / Clynfyw Care Farm / Castell Aberteifi – Cardigan Castle / Mundos / St Dogmaels Pottery / Welshhomestead Smokery / Mantle Brewery / In the Welsh Wind Distillery Ltd / Walden Arts / Dai Crabs / Siop y Pentre, Cilgerran / Bay Coffee Roasters / Caryl Lewis / Anne Cakebread a/and Claire Wigley / Cymdeithas Ffilm Theatr Mwldan – Theatr Mwldan Film Society

**Diolch arbennig iawn i'n holl staff, criw, gwirfoddolwyr, Artistiaid, siaradwyr Clebran, perfformwyr, ein lleoliadau Llwybr Cerdd, Eglwys y Santes Fair a'r holl bobl sydd wedi gweithio mor galed i gyflwyno'r digwyddiad hwn. Yn olaf ond nid yn lleiaf, ein diolch o waelod calon i bobl Aberteifi am estyn croeso mor wresog.**
A special thank you to all of our staff, crew, volunteers, Artists, Clebran speakers, performers, our Music Trail venues, St Mary's Church and all the people who have worked so hard to put this event together. Last but not least our heartfelt thanks to the people of Cardigan for being such wonderful hosts.

**Llwyfannir Lleisiau Eraill Aberteifi gyda chefnogaeth a buddsoddiad Llywodraeth Cymru a'r Adran Twristiaeth, Diwylliant, Celfyddydau, Gaeltacht, Chwaraeon a Chyfryngau, ac fe'i cynhyrchir gan South Wind Blows mewn partneriaeth â'r Mwldan a Triongl. Bydd y digwyddiad yn cael ei ffilmio gan Triongl i'w ddarlledu nes ymlaen ar S4C ac RTÉ.**

Other Voices Cardigan is staged with the support and investment of Welsh Government and The Department of Tourism, Culture, Arts, Gaeltacht, Sport and Media and is produced by South Wind Blows in partnership with Mwldan and Triongl. The event will be filmed by Triongl for later broadcast on S4C and RTÉ.



Llwybrau.
Wales, by Trails.
Gwyliau epig ar gyfer pob tymor.
Epic holidays, all year round.
Crwydra lwybrau Cymru
#Llwybrau
Be a trail taker
#WalesByTrails
Llangrannog, Ceredigion